PROTOCOL DYCHWELYD I HYFFORDDI'N FWY DIOGEL CBDC

SWYDDOG CLWB AR GYFER CYDYMFFURFIO Â COVID-19

RÔL A CHYFRIFOLDEBAU

CYFLWYNIAD

Mae statws y pandemig COVID-19 presennol yn newid ac yn esblygu o ddydd i ddydd a bydd y canllawiau hyn yn parhau i gael eu llywio gan bolisi Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac i gydymffurfio â'r polisi hwnnw.

Ni ddylid dychwelyd i hyfforddi oni bai fod hynny'n unol â Phrotocol Dychwelyd i Hyfforddi'n Fwy Diogel y CBDC. Mae'n ofynnol i bob clwb benodi o leiaf un Swyddog Cydymffurfio COVID-19. Mae'n ofynnol bod gan bob Swyddog Cydymffurfio COVID-19 a benodir i glybiau gyda chwaraewyr iau dystysgrif DBS ddilys. Rôl yr unigolyn hwn fydd:

- Gweithredu fel Prif Bwynt Cyswllt y clwb mewn perthynas â chyfathrebu â CBDC, yn ogystal ag i glybiau eraill wrth ddychwelyd i chwarae
- Gweithredu a rheoli'r protocolau Dychwelyd i Bêl-droed ar draws y clwb
- Datblygu rhwydwaith o Arweinwyr Gweithredol COVID-19 ar gyfer timau neu rannau o'r clwb h.y. tîm cyntaf, pêl-droed mini, timau iau, merched ac anabledd ac ati a fyddai'n cefnogi wrth weithredu protocolau Dychwelyd i Hyfforddi'n Fwy Diogel CBDC.
- Cyfathrebu a chysylltu ag Arweinwyr Gweithredol COVID-19, swyddogion clwb a hyfforddwyr ar brotocolau a gweithdrefnau Dychwelyd i Hyfforddi'n Fwy Diogel CBDC y mae'n rhaid eu mabwysiadu
- Lledaenu gwybodaeth berthnasol sy'n gysylltiedig â COVID-19 i chwaraewyr a rhieni yn y clwb
- Cydlynu'r broses o gadw cofnodion o bawb sy'n rhan o bob sesiwn hyfforddi at ddibenion olrhain cysylltiadau.

Dylai'r person hwn fod yn gyfarwydd â chanllawiau'r Llywodraeth ac Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â COVID-19.

Rôl a Chyfrifoldebau

Lleoliad Hyfforddi, Cyfleusterau ac Offer

- Cydlynu'r broses o gwblhau Asesiad Risg COVID-19 ar bob lleoliad hyfforddi cyn ei ddefnyddio.
- Sicrhau bod arwyddion COVID-19 i'w gweld ym mhob rhan o'r cyfleusterau hyfforddi os ydynt yn eiddo i, neu'n cael eu rheoli gan y clwb. Os nad yw'r cyfleuster yn eiddo i, neu'n cael ei reoli gan y clwb, ewch ati i gydlynu arwyddion gyda darparwr y cyfleuster.
- Sicrhau na ddefnyddir unrhyw ystafelloedd newid na chawodydd.
- Sicrhau bod cyfleusterau glanweithdra (*sanitary*) yn hygyrch i chwaraewyr a hyfforddwyr.
- Sicrhau bod holl offer hyfforddi'r clwb, gan gynnwys pyst gôl, yn cael eu glanweithio cyn ac ar ôl pob sesiwn hyfforddi.

Sesiynau Hyfforddi Clwb

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw at y meintiau grwpiau a bennir ym mhrotocol Dychwelyd i Hyfforddi'n Fwy Diogel CBDC ar draws y clwb:
- Gwnewch yn siŵr mai dim ond staff sydd ar gaeau / meysydd hyfforddi
- Gwnewch yn siŵr bod ardaloedd hyfforddi clybiau o leiaf 90 x 45 metr mewn maint os ydynt yn cael eu defnyddio gan y nifer uchaf o chwaraewyr.
- Sicrhewch fod pob chwaraewr a hyfforddwr yn cadw pellter cymdeithasol wrth gyrraedd a gadael yr ardal hyfforddi
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw pellter cymdeithasol yn ystod y sesiwn hyfforddi, yn unol â phrotocol Dychwelyd i Hyfforddi'n Fwy Diogel CBDC a chanllawiau gweithgarwch hyfforddi CBDC
- Sicrhewch nad yw chwaraewyr, hyfforddwyr a rhieni yn ymgynnull yn y lleoliad neu'r maes parcio yn ystod y sesiynau codi a gollwng

Hyfforddwyr a Chwaraewyr

- Sicrhewch fod yr hyfforddwyr, y chwaraewyr a'r rhieni yn deall ac yn cadw at eu cyfrifoldebau, fel y nodir ym mhrotocol Dychwelyd i Hyfforddi'n Fwy Diogel CBDC
- Cofiwch gadw cofnod o bawb sy'n cymryd rhan ym mhob sesiwn hyfforddi at ddibenion olrhain cysylltiadau.

Adrodd

- Cofiwch gadw mewn cysylltiad rheolaidd â Chadeirydd y Clwb a hyfforddwr/wyr perthnasol, ac adrodd yn ôl iddynt, am y sesiynau hyfforddi a chadw at brotocol Dychwelyd i Hyfforddi'n Fwy Diogel CBDC